**Pwyllgor Cyfartaledd Cyfle**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 3 Chwefror 2000 |
| **Amser:** | 9.30 am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau** |

| | |
|---|---|
| Jane Hutt (Cadeirydd) | Bro Morgannwg |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| Edwina Hart | Gë yr |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Gareth Jones | Conwy |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

**Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| Kevin Fitzpatrick | Comisiwn Hawliau'r Anabl |
| Howard John | Anabledd Cymru |
| Mashug Aly | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| Judith Jones | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |

**Swyddogion**

Kate Cassidy }

Charles Willie }	Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adain Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus

Andrew George Clerc
Julie Bragg	Dirprwy Glerc

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Glyn Davies a Kirsty Williams.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Papur: EOC-01-00(p.1)**

1.1 Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Yn arbennig croesawodd Dr Kevin Fitzpatrick, Comisiynydd newydd Hawliau'r Anabl Cymru; Dr Mashug Aly, Darpar Gyfarwyddwr y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru; ac Elizabeth Jones, a ymunodd â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol o Lys Iawnderau Dynol Ewrop yn Strasbourg yn ddiweddar.

1.2 Cyhoeddodd y Cadeirydd bod Kate Cassidy yn symud o'i swydd fel Pennaeth yr Adain Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus i fod yn Bennaeth yr Adain Moderneiddio Llywodraeth Leol. Dymunai gofnodi diolch y Pwyllgor am rôl Kate mewn materion cydraddoldeb cyn ac ers ffurfio'r Pwyllgor. Byddai Mike Harper yn cymryd ei lle cyn bo hir.

1.3 Roedd y Cadeirydd wedi trafod staffio'r Uned Cydraddoldeb mewn cyfarfod diweddar gyda'r Ysgrifennydd Parhaol. Ers mis Mai cafwyd nifer o benodiadau i'r Uned â'r canlyniad oedd, yn ogystal â Phennaeth yr Adain a Phennaeth yr Uned, bod dau aelod o'r staff bellach wedi'u penodi i bob un o'r prif feysydd cydraddoldeb. Yn ogystal, roedd un aelod o'r staff yn gweithio gyda threfnwyr Cyngres Amrywiaeth Diwylliannol Byd-eang a secondiwr o Gyngor Ffoaduriaid Cymru ar faterion mewnfudo a lloches. Awgrymwyd y dylid gwahodd yr Ysgrifennydd Parhaol i esbonio'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi cyfle cyfartal i'r Comisiwn.

1.4 Byddai canlyniadau'r Archwiliad Cydraddoldeb yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r archwiliad yn cael ei gynnal yn annibynnol. Cytunodd Charles Willie y byddai hyn o gymorth ac y byddai'n cael ei drefnu. Roedd wedi cael cyngor annibynnol ar strwythur a fformat y dulliau casglu gwybodaeth a ddefnyddiwyd o'r sefydliadau cydraddoldeb ac o Brifysgol Cymru.

1.5 Amlygodd y Cadeirydd sawl mater o'i hadroddiad:

- nid oedd cynrychiolydd llywodraeth Tsieina yn y Gyngres Amrywiaeth Diwylliannol Byd-eang bellach i fod yn brif siaradwr. Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn cymryd rhan yn y gweithdai i'w cynnal yn y Gyngres, a gofynnwyd i Anabledd Cymru awgrymu lleoliadau hygyrch;
- gwahoddwyd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant, Rosemary Butler; ac ACCAC, i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor i drafod ymateb y Cynulliad i argymhellion Ymchwiliad Stephen Lawrence ar addysg. Cytunwyd gwahodd ESTYN hefyd;
- roedd swyddfa Comisiynydd Materion Cymdeithasol Ewrop wedi cynghori y byddai unrhyw wahoddiad iddi hi ymweld â Chymru yn debygol o gael mwy o flaenoriaeth os byddai'r rhaglen

arfaethedig yn adlewyrchu ei phortffolio ehangach. Cytunwyd mai cyfle cyfartal fyddai'r prif ffocws. Fodd bynnag, byddai ymweliad ehangach yn rhoi'r cyfle i wneud y cyswllt rhwng cyfartaledd a datblygiad economaidd.

1.6 O ran amseriad yr wythnos cydraddoldeb arfaethedig, roedd y Cadeirydd wedi ystyried nifer o ffactorau ac wedi dod i'r casgliad y byddai'n briodol iawn i'w chynnal ym mis Gorffennaf tua amser trafodaeth flynyddol y Cynulliad ar gyfle cyfartal. Ni fyddai'r argymhelliad iddi gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol y Merched wedi rhoi digon o amser i'r cynllun gweithredu o ganlyniad i'r Archwiliad Cydraddoldeb ddechrau. Fodd bynnag, roedd y Diwrnod yn cael ei gydnabod gan y Cynulliad am fod y Dirprwy Lywydd yn cadeirio digwyddiad gan y sefydliad Permanent Waves yn y Siambr a byddai llawer o'r Aelodau yn mynychu cinio gyda TUC Cymru. Cynigiodd yr Aelodau y dylid cynnal arddangosfa yn y Man Ymgynnull ar gyfer y Diwrnod a chefnogi digwyddiad o'r enw 'Dathlu fy Chwaer' a fyddai'n cael ei gynnal yn Neuadd Dewi Sant ar 21 Mawrth. Cynigiodd y Cadeirydd ysgrifennu at sefydliadau merched am y cynigion hyn.

1.7 Mynegodd yr aelodau siom gydag ymateb i'r holiadur ar ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac awgrymwyd na fyddai'n ystyrlon cynllunio rhaglen ar sail cyfradd ymateb o 35%. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n well gan y rhan fwyaf o'r rhai hynny a oedd wedi ymateb sesiynau rhyngweithiol byrrach. Byddai hyfforddiant mewn penodiadau cyhoeddus yn digwydd cyn ddiwedd y sesiwn hwn. Byddai'r rhaglen ar gyfer sesiynau eraill yn cael ei darparu cyn ddiwedd y tymor.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Deddf Iawnderau Dynol**
**Cyflwyniad gan Kate Cassidy, Pennaeth Adain Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus ac Elisabeth Jones, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol**

2.1 Esboniodd Kate Cassidy bod Adran 107 Deddf Llywodraeth i Gymru 1998 yn atal y Cynulliad rhag gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â Deddf Iawnderau Dynol 1998. Mae'r Ddeddf Iawnderau Dynol ei hyn yn cwmpasu pob swyddogaeth gyhoeddus yn y DU ond ni ddaw i rym tan 2 Hydref eleni. Mae hyn yn golygu na fydd awdurdodau lleol a'r NHS er enghraifft yn cael eu cwmpasu gan y Ddeddf tan hynny.

2.2 Bydd y Ddeddf Iawnderau Dynol yn galluogi 'dioddefwyr' i ddefnyddio'r Confensiwn Iawnderau Dynol yn llysoedd a thribiwnlysoedd y DU yn hytrach na mynd â hwy i Llys Iawnderau Dynol Ewrop yn y lle cyntaf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddeddfwriaeth y DU gael ei dehongli mewn ffordd sy'n cyd-fynd â Hawliau Confensiwn. Os nad yw hyn yn bosibl bydd angen newid y ddeddfwriaeth, gan y Llysoedd o bosibl, gan ddileu deddfwriaeth eilradd neu trwy newid deddfwriaeth sylfaenol mewn dull carlam.

2.3 Mae hawliau'r Confensiwn yn eang eu cwmpas ac yn amrywio o'r hawl i briodi, i berthyn i undeb llafur, i gael addysg neu i fwynhau eich eiddo eich hun yn ogystal â'r hawl mwy sylfaenol i fywyd. Gall hawliau fod yn absoliwt, yn gyfyngedig neu'n gymwys mewn ffordd a ragnodir gan y gyfraith ond sydd yn gymesur â'r hawl dan sylw. Er enghraifft, ni allwch fod yn ddidostur wrth ddiogelu hawl rhywun i breifatrwydd. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y Confensiwn yn bolisi byw ac y gellir ei newid gyda hinsawdd foesol gyfnewidiol gwlad.

2.4. Roedd i hawliau confensiwn oblygiadau ar gyfer sawl un o swyddogaethau'r Cynulliad. Mae'n rhaid ystyried Erthygl 6 – yr hawl i dreial teg – yn nhermau'r gweithdrefnau sy'n effeithio ar hawliau sifil a

goblygiadau megis penderfyniadau cynllunio neu unrhyw weithdrefn sy’n cynnwys pobl yn barnu hawliau pobl eraill. Mae gan Erthyglau 3 ac 8 oblygiadau am ofalu am bobl ddiamddiffyn megis plant a phobl hn. Mae’r rhain yn bwydo i mewn i bolisïau iechyd a gofal cymdeithasol y Cynulliad. Mae Erthygl 14 yn gwahardd camwahaniaethu. Mae’n rhaid ystyried hyn mewn cydweithrediad â’r holl hawliau eraill (e.e. yr hawl i addysg ac eithriadau o ysgolion) ac mae’n effeithio ar bolisïau yn gyffredinol.

2.5 Roedd y Swyddfa Gymreig wedi ymuno â Thasglu Iawnderau Dynol y DU ac wedi ffurfio bwrdd project i weithredu dros flwyddyn yn ôl. Mae’n rhaid i’r swyddogion nawr gwblhau rhestr wirio ar gyfer unrhyw gyflwyniadau i Ysgrifennydd Cynulliad i gadarnhau ei fod yn cydymffurfio ag Adran 107 Deddf Llywodraeth i Gymru. Cynhaliwyd seminarau mewnol ac mae canllawiau manwl wedi eu cynhyrchu ar gyfer meysydd polisi unigol. Hysbyswyd yr awdurdodau cyhoeddus a chyhoeddwyd arweiniad i gyrff noddedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Busnes Cymru. Mae cynhadledd ar y Ddeddf wedi ei threfnu ar gyfer y cyrff hyn ar 19 Mai a bydd gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol yn bresennol. Byddai Aelodau’r pwyllgor a’r cynghorwyr presennol yn cael eu gwahodd i’r gynhadledd.

2.6 Wrth lofnodi’r Ddeddf, roedd Llywodraeth y DU wedi cymhwyso’r hawl i addysg yn nhermau argaeledd adnoddau. Roedd hyn yn arbennig o bwysig mewn cysylltiad â dymuniadau rhieni i addysgu eu plant yn eu crefydd eu hunain. Roedd yr Aelodau hefyd yn teimlo y gallai’r Cynulliad ddarparu adnoddau i gwrdd â’r galw os byddai angen. Bu’r Confensiwn ei hun mewn bodolaeth ers 1951 a theimlai’r Aelodau y byddai’n briodol dathlu ei hanner can mlwyddiant y flwyddyn nesaf.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Adroddiad Tasglu Hawliau Anabledd: O Eithrio i Gynnwys**
**Papur: EOC-01-00(p.2)**

3.1 Esboniodd y Cadeirydd bod y Prif Ysgrifennydd wedi gwahodd y Pwyllgor i fonitro gweithredu argymhellion y Tasglu Hawliau Anabledd (DRTF). Gwahoddodd Kevin Fitzpatrick i rhoi sylwadau ar yr adroddiad.

3.2 Roedd aelodau’r DRTF wedi dod o gefndiroedd amrywiol ac yn cynnwys cyflogwyr a chynrychiolwyr y sector gwasanaeth. Mae’r adroddiad a ddeilliodd o hyn felly yn gytbwys am fod angen bodloni pob plaid ac mae’n gosod gwaelodlin y gall y Cynulliad gymryd ei bolisïau a datblygu ymagwedd strategol ohono. Amlygodd Dr Fitzpatrick bod un o’r materion a godwyd yn arbennig: addysg, ar bob un o’r 3 haen, ar hyn o bryd yn dod y tu allan i ddarpariaethau’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA). Mae’r adroddiad yn amlygu’r brys i unioni hyn ym marn y Tasglu. Nododd bod y Llywodraeth yn cydymdeimlo â’r holl awgrymiadau a wnaed yn yr adroddiad er nad oes amserlen glir i fynd i’r afael â hwy hyd yma. Mae cylch gorchwyl y DRTF yn ei alluogi i arolygu ac awgrymu argymhellion y mae o’r farn y dylai gael blaenoriaeth. Blaenoriaeth arbennig i Gymru oedd y trothwy y mae cyflogwyr yn gaeth iddo gan ddarpariaethau’r DDA, gan fod gan Gymru gyfradd uchel o gyflogwyr bach. Byddai cymhwyso darpariaethau nwyddau a gwasanaethau’r DDA yn flaenoriaeth amlwg o fewn yr ystyriaeth hon.

3.3 Byddai gan y Comisiwn Hawliau’r Anabl ei hun bedair swyddogaeth graidd: gwaith achos, cymorth cyfreithiol, cynrychiolaeth polisi a’r cyfryngau. Roedd staff y Comisiwn, 160 i gyd, ar hyn o bryd yn cael eu recriwtio, gan gynnwys 6 Chyfarwyddwr, un a fyddai’n cwmpasu Cymru. Byddai’r Comisiwn yn gweithredu ar yr egwyddor ‘nad oes unrhyw gydraddoldeb cyfle nes bod cydraddoldeb canlyniad’ a byddai’n gobeithio

cael effaith cyn gynted â phosibl. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau bod swydd allweddol o fewn y Comisiwn ond wedi cael ei hysbysebu yn y South Wales Echo yn flaenorol ond yn dilyn cynrychioliadau a wnaeth i David Blunkett, roedd hefyd wedi ymddangos yn y Western Mail.

3.4 Cytunwyd comisiynu papur ar weithredu argymhellion y DRTF yng Nghymru, gan gynnwys a oedd yn bosibl amrywio'r trothwy yma. Roedd yr Aelodau'n ystyried ei bod yn bwysig i'r Cynulliad osod terfynau amser a graddfeydd amser. Gwnaeth y Cadeirydd argymhelliad i ysgrifennu at bob un o Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion y Pwyllgorau i ddod â'r adroddiad i'w sylw ac i'w hysbysu o fwriad y Pwyllgor i ddefnyddio ei bwerau archwilio'n llawn. Byddai'r llythyr yn cynnwys pwyntiau allweddol a chwestiynau penodol y dylai'r derbynwyr eu hystyried. Nododd Charles Willie bod argymhellion y DRTF eisoes wedi cael eu dosbarthu i Bennaeth pob Adain o'r Cynulliad ac y gofynnwyd iddynt nodi pa gamau weithredoedd ymarferol yr oeddent yn bwriadu eu cymryd nawr.

3.5 Ystyriodd yr aelodau a ddylid hefyd gofyn i Rosemary Butler roi sylwadau ar argymhellion y DRTF pan fyddai'n dod i'r Pwyllgor. Teimlwyd y gallai ymyrryd â'r ystyriaeth o argymhellion Stephen Lawrence. Fodd bynnag, byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Mrs Butler a Tom Middlehurst, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant yn awgrymu cyfarfod anffurfiol yngln â'r rhain a'r materion cenedl a godwyd yng nghyfarfod blaenorol y pwyllgor.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Gweithgor ar Argymhellion Ymchwiliad Stephen Lawrence**
**Papur: EOC-01-00(p.3)**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon a fyddai'n ystyried cylch gorchwyl ar gyfer y gweithgor o wirfoddolwyr ar argymhellion Ymchwiliad Stephen Lawrence ac adroddiad o'u cyfarfod ar 19 Ionawr. Roedd yn rhaid cydnabod hiliaeth sefydliadol a mynd i'r afael ag ef. Roedd cyrff sy'n ymdrin â materion hiliaeth yn ystyried ymagwedd proactif y Pwyllgor yn ffafriol iawn ar roeddent yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau. Cytunodd aelodau'r gweithgor ystyried ar wahân a ddylai ffurfio is-bwyllgor ffurfiol o'r Pwyllgor.

4.2 Croesawyd yr argymhelliad i sefydlu gweithgor o swyddogion a chyrff allanol i edrych yn fanwl ar yr argymhellion addysg. Awgrymwyd y dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan fod yn aelodau o'r gweithgor ynghyd ag ACCAC, ESTYN a Heddlu De Cymru. Dylid hefyd wahodd cyrff y tu allan i'r 'status quo' i gymryd rhan os gellid eu hadnabod. Cytunodd y Cadeirydd â'r teimladau a fynegwyd a dywedodd y ceid cynnydd ar y gweithgor cyn gynted â phosibl.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Blaenraglen Waith y Pwyllgor**
**Papur: EOC-01-00(p.4)**

5.1 Gwahoddwyd yr Aelodau i ystyried y Blaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor. Gan bod rhai o'r agendâu yn llawn, awgrymwyd y gellid cynnal rhai sesiynau briffio ar gyfer yr Aelodau y tu allan i gyfarfodydd y pwyllgor. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai fod problemau amserlen gyda'r ymagwedd yma. Nid oedd y rhaglen yn gaeth a gellid ei newid wrth i faterion godi. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn olrhain y papurau y gofynnwyd amdanynt yn flaenorol i sicrhau eu bod yn cael eu dychwelyd at y Pwyllgor ar amser priodol.

**Eitem 6 ar yr Agenda : Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EOC-05-99(min)**

6.1 Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal wedi cyflwyno rhai cywiriadau ysgrifenedig i’r ffigurau a ddyfynnwyd ym mharagraff 4.1 o’r cofnodion ond fel arall derbyniwyd y cofnodion. Ceisiodd yr aelodau wybodaeth bellach ar ychydig bwyntiau. Gofynnwyd am wybodaeth ar yr ymagwedd proactif a oedd bellach yn cael ei chymryd i recriwtio staff du ac o leiafrifoedd ethnig i’r Cynulliad; a’r cwestiwn o gynrychiolaeth y Cynulliad yn nigwyddiad Beijing Plus Five. Ymgymerodd y swyddogion i adrodd yn ôl ar y materion hyn.

6.2 Tynnodd Howard John sylw at ddatblygiadau yn ymwneud ag adeilad newydd y Cynulliad. Roedd yr Aelodau wedi cael gwybodaeth ar yr hyn a drafodwyd gyda’r penseiri a byddai ymarferiad ymgynghorol llawn yn cael ei gynnal cyn y byddai’r cynlluniau’n derfynol. Diolchodd i’r Ysgrifennydd Cyllid am alluogi i drafodaethau o’r fath a’r newidiadau o ganlyniad i hynny ddigwydd.

6.3 Daeth y cyfarfod i ben am 12.05.